

PROTOCOL ARFER GORAU TPC 1E

SYLWADAU YSGRIFENEDIG

Cyflwyniad

1. Mae'r rheoliadau'n darparu y gellir datrys apeliadau, ac eithrio apeliadau cyfradd draenio, ar sail sylwadau ysgrifenedig ffurfiol os yw'r holl bartïon wedi rhoi eu cytundeb yn ysgrifenedig. Gall y weithdrefn hon fod yn berthnasol yn achos y mathau canlynol o apêl:
 - Ardrethu annomestig;
 - Prisio'r dreth gyngor;
 - Atebolrwydd/gostyngiadau'r dreth gyngor; a
 - Hysbysiadau cwblhau.
2. Gall apelydd dynnu ei apêl yn ôl ar unrhyw adeg cyn i'r tribiwnlys/panel apêl ystyried y sylwadau ysgrifenedig.

Deddfwriaeth

- Rheoliad 25 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheoliad 20 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestri ac Apelau) 1993 (OS 1993/290)
- Rheoliad 33 o Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (OS 2010/713)

Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig

3. Mae parti yn gwneud cais i achos gael ei benderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig.
4. Bydd Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) yn hysbysu pob parti arall am y cais a bydd yn ei wneud yn ofynnol i'r partïon nodi a ydynt yn cytuno i'r cais ai peidio.
5. Pan fydd yr holl bartïon wedi cytuno i'r cais, bydd TPC yn cyflwyno rhybudd o'r cytundeb i'r partïon.
6. Mae gan bob parti bedair wythnos i ddarparu eu tystiolaeth/tystiolaeth ychwanegol i TPC, os dymunant, neu gallant nodi nad ydynt am wneud sylwadau pellach.

7. Bydd TPC yn cyflwyno rhybudd o unrhyw dystiolaeth a dderbynnir o dan bwynt 6 uchod i'r partïon eraill ac yn eu cynghori ynghylch unrhyw weithdrefnau pellach i'w dilyn.
8. Cyn pen pedair wythnos ar ôl derbyn rhybudd o'r fath, caiff unrhyw barti gyflwyno ymateb i TPC i ddatganiad y parti arall, neu nodi nad ydynt yn bwriadu cyflwyno sylwadau pellach.
9. Pe bai TPC yn derbyn sylwadau pellach, cyflwynir copïau i'r partïon eraill. Nid oes hawl i'r partïon ymateb i unrhyw gyflwyniad pellach.
10. Bedair wythnos ar ôl pwynt 9, bydd TPC yn cyflwyno copïau o'r holl wybodaeth a drosglwyddir yn unol â'r Rheoliadau i'r Tribiwnlys/Panel Apêl.
11. Gall y Tribiwnlys/Panel Apêl:
 - ystyried y ddogfennaeth a chyhoeddi penderfyniad; neu
 - ei gwneud yn ofynnol i unrhyw barti ddarparu gwybodaeth bellach. Bydd TPC yn cyflwyno copi o unrhyw wybodaeth a dderbynnir ar bob parti arall. Yna gall pob parti, cyn pen pedair wythnos ar ôl derbyn gwybodaeth o'r fath, gyflwyno ymateb pellach i TPC. Unwaith eto, bydd y Tribiwnlys/Panel Apêl yn ystyried y ddogfennaeth ac yn cyhoeddi ei benderfyniad.
12. Os bernir bod angen hynny, caiff y Tribiwnlys/Panel Apêl orchymyn bod yr apêl yn cael ei ddelio ag ef ar sail gwrandawriad.